


YR EGLWYS
YNG NGHYMRU



THE CHURCH
IN WALES

PLWYF DEWI SANT, CAERDYDD
THE PARISH OF DEWI SANT, CARDIFF

CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD



**GWASANAETH
GWENER Y GROGLITH
2024**

Braint heddiw, ar ddydd Gwener y Groglith, yw cael eich croesawu i Eglwys Dewi Sant wrth i ni gydgynnull wrth droed y groes a myfyrio ar ddiodefaint ein Harglwydd Iesu Grist.

Yn ystod y trydydd emyn cymerir casgliad a fydd yn cael ei rannu rhwng gwaith Cymorth Cristnogol a gwaith Agor y Llyfr.

Cedwir tawelwch cyn dechrau'r gwasanaeth.

Bydd y gwasanaeth yn dechrau trwy gydganu'r Intrada ar ein heistedd.

**Dyfod y mae'r awr,
Ac yn awr y mae,
Pan addolo y gwir addolwyr y Tad
Mewn Ysbryd a gwirionedd.**

Arweinydd: O'i gael ar ddull dyn, darostyngodd Crist ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes. Am hynny tra-dyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw.
Philippiaid 2:8-9

Arweinydd: Dyma ddydd y groes, dydd buddugoliaeth.

***Pawb:* Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol**

Arweinydd: Addolwn di, O Grist, a bendithiwn di.

***Pawb:* Am i ti, trwy dy Groes sanctaidd, brynu'r byd.**

Arweinydd: Trwy aberthu dy fywyd ar y Groes,
fe ryddheast dy bobl.

***Pawb:* Arnat ti y dibynnwn i'n hachub a'n cynorthwyo.**

Arweinydd: Gweddiwn

Hollalluog Dad,
edrych yn drugarog ar dy deulu yma
y bu Iesu Grist ein Harglwydd
yn barod i gael ei fradychu er ei fwyn
a'i draddodi i ddwylo pechaduriaid
a dioddef angau ar y groes,
gofynnwn hyn er ei fwyn ef sy'n awr yn byw mewn gogoniant
gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw dros byth. **Amen.**

Arweinydd: Dyma ddydd y Groes.

***Pawb:* Dyma ddydd buddugoliaeth.**

Cof am y cyfiawn Iesu,
 Y person mwyaf hardd,
 Ar noswaith drom anesmwyth
 Bu'n chwysu yn yr ardd;
 A'i chwêys yn ddafnau cochion
 Yn syrthio ar y llawr:
 Bydd canu am ei gariad
 I dragwyddoldeb mawr.

Cof am y llu o filwyr
 Â'u gwayw-ffyn yn dod
 I ddal yr Oen diniwed
 Na wnaethai gam erioed;
 Gwrandewch y geiriau ddwedodd,
 (Pwy allsai ond efe?)
 "Gadewch i'r rhain fynd ymaith,
 Cymerwch fi'n eu lle."

Cof am yr wyneb siriol
 Y poerwyd arno'n wir;
 Cof am y cefen gwerthfawr,
 Lle'r arddwyd cwysau hir;
 O annwyl Arglwydd Iesu,
 Boed grym dy gariad pur
 Yn torri 'nghalon galed
 Wrth gofio am dy gur.

William Lewis, Llangloffan


Darlleniad o'r Hen Destament: Eiseia 52:13 – 53:11

Marc Jon Williams - Tabernacl

Cenir Salm 22: 1-8

Sefyll

M. Camidge



Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt / wedi · fy / ngadael :
ac yn cadw draw rhag fy ngwaredu ac / oddi · wrth / eiriau · fy /
ngriddfan?

O fy Nuw, gwaeddaf arnat liw dydd, ond nid / wyt yn / ateb : a'r
nos, ond / ni - / chaf lo/nyddwch.

Eto, yr wyt / ti, y / Sanctaidd :
wedi dy or/seddu · yn / foliant · i / Israel.
Ynot ti yr oedd ein hynafiaid / yn ym/ddiried :
yn ymddiried a / thithau'n / eu gwa/redu.

Arnat ti yr oeddent yn gweiddi ac a/chubwyd / hwy :
ynot ti yr oeddent yn ymddiried ac / ni · chywi/lyddiwyd / hwy.
Pryfyn wyf fi / ac nid / dyn :
gwawd a / dir - /myg i / bobl.

Y mae pawb sy'n fy / ngweld · yn fy / ngwatwar :
 yn gwneud ystumiau arnaf / ac yn / ysgwyd / pen.
 "Rhoes ei achos i'r Arglwydd,* bydded iddo / ef ei / achub :
 bydded iddo ef ei waredu, o/herwydd · y / mae'n ei / hoffi!"

Eistedd

Darlleniad o'r Testament Newydd: Philipiaid 2:5-11

Dwyfor Jones - Minny Street

Cenir Salm 22:1,2, 14 – 19

Sefyll

J. Battishell



Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt / wedi · fy / ngadael :
 ac yn cadw draw rhag fy ngwaredu ac / oddi · wrth / eiriau · fy /
 ngriddfan?

O fy Nuw, gwaeddaf arnat liw dydd, ond nid / wyt yn / ateb :
 a'r nos, ond / ni - / chaf lo/nyddwch.

Yr wyf wedi fy nihysbyddu fel dŵr * a'm holl esgyrn / yn
 ym/ddatod :

y mae fy nghalon fel / cwyr · ac yn / toddi · o'm / mewn;

Y mae fy ngheg yn sych fel cragen * a'm tafod yn glynu wrth
 / daflod · fy / ngenau :

yr wyt wedi fy / mwrw · i / lwch mar/wolaeth.

Y mae cŵn o'm hamgylch * haid o ddihirod yn / cau am/danaf :
y maent yn try/wanu · fy / nwylo · a'm / traed.

Gallaf gyfrif pob / un o'm / hesgyrn :
ac y maent hwythau'n edrych / ac yn / rhythu / arnaf.

Y maent yn rhannu fy nillad / yn eu / mysg :
ac yn bwrw / coelbren / ar fy / ngwisg.

Ond ti, Arglwydd, paid â / sefyll / draw :
O fy nerth / brysia · i'm / cynor/thwyo

Eistedd

Efengyl y Dioddefaint: Luc 23:26-49
Mair Matthews – Eglwys Dewi Sant

Yr Anthem: Cerddoriaeth: Robert Lucas Pearsall
(1795 - 1856)

Geiriau: Ave Verum Corpus

*Ave verum corpus,
natum de Maria Virgine,
vere passum, immolatum
in cruce pro homine
cuius latus perforatum
fluxit aqua et sanguine:
esto nobis praegustatum
in mortis examine.*

*O Iesu dulcis, O Iesu pie,
O Iesu, fili Mariae.*

*Henffych well, wir Gorff,
a anwyd gynt o Fair, y Forwyn bur
a thros ddynion a offrymwyd
ar y groes dan hoelion dur;
Yno tarddodd bywiol ffrydiau
Dŵr a Gwaed o'th ystlys di,
Iesu hoff, yn awr ein hangau
bydd yn ymborth gwiw i ni.*

*O Iesu Ceidwad cu, di-nam,
Fwyn Fab y Forwyn Fair.*

**Mi feddyliais cawswn f'Arglwydd
Yng nghymdeithas mawrion byd;
Ymhlith lladron a llofruddion
Gwelais gynta'i wyneb pryd:
Ar y croesbren,
Nid yn llys un brenin gwych.**

**Dacw lofrudd ar ei aswy,
Dacw leidr ar ei dde;
Draw fe'i hoeliwyd yn y canol –
Brenin daear, brenin ne'!
Mi apeliaf
At yr orsedd ar y groes.**

**Ni raid esgyn fry i'r nefoedd,
Y mae'r nefoedd ar y pren;
Plygai'r nefoedd at y ddaear
Pan ogwyddai ef ei ben:
Minnau'n euog
Âf am bardwn at y groes.
*William Williams, Pantycelyn***

Eistedd

Y Bregeth

Pregethir gan y Parchedig Denzil John

*Yn ystod yr emyn hwn y cymerir casgliad tuag at waith
Cymorth Cristnogol ac Agor y Llyfr*

**Mi dafla' maich oddi ar fy ngwar
Wrth deimlo dwyfol loes;
Euogrwydd fel mynyddoedd byd
Dry'n ganu wrth dy Groes.**

**Os edrych wnaf i'r dwyrain draw,
Os edrych wnaf i'r de;
Ymhlith a fu, neu ynteu ddaw,
'D oes debyg iddo fe.**

**Fe roes ei ddwylo pur ar led,
Fe wisgodd goron ddrain;
Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn
Fel hyfryd liain main.**

**Esgyn a wnaeth i entrych nef
I eiriol dros y gwan;
Fe sugna f'enaid innau'n lân
I'w fynwes yn y man.**

**Ac yna caf fod gydag ef
Pan êl y byd ar dân;
Ac edrych yn ei hyfryd wedd,
Gan' harddach nag o'r blaen.**

William Williams, Pantycelyn

Trwy ei groes a'i werthfawr waed, fe brynodd ein Harglwydd Iesu Grist y byd. Dywedodd wrthym, os oes nab am fod yn ddilynwyr iddo ef, fod yn rhaid iddynt ymwadu â hwy eu hunain, codi eu croes, a'i ganlyn ef ddydd ar ôl dydd.

Felly, gadewch inni weddio ar ein Gwarddwr, a ddiodefodd ei boenau, a gladdwyd ac a gyfododd o farwolaeth, a dywedwn: O Grist, mawrygwn di.

O Grist, addolwn di.

Arglwydd ein Meistr, trosom ni buost yn ufudd hyd angau, dysg inni wneud ewyllys dy Dad.

O Grist, addolwn di.

Arglwydd ein bywyd, drwy farw ar y Groes, yr wyt wedi gorchfygu marwolaeth a galluoedd y tywyllwch, cynorthwya ni i adnabod grym dy atgyfodiad a cymdeithas dy ddiodefidiadau.

O Grist, addolwn di.

Arglwydd ein grym, cefaist dy ddirmygu a dy ddarostwng fel drwgweithredwr, dysg i ni wir ostyngeddwr.

O Grist, addolwn di.

Arglwydd ein hiachawdwriaeth, rhoddaist dy fywyd yn dy gariad ar dy frodyr a'th chwiorydd, dysg i ni garu'n gilydd gyda'r un cariad.

O Grist, addolwn di.

Arglwydd ein Harglwydd, gyda'th ddwylo ar led ar y Groes, tyn bawb atat ti dy hun, a chasgla i'th deyrnas holl blant gwasgaredig Duw.

Arglwydd Iesu Grist, a groeshoeliwyd drosom,
cymorth bob un ohonom i garu fel y ceraist ti,
i fyw fel y buost ti fyw,
i fod yn gymydog i'n cyd-ddynion yn eu hangen,
fel y buost ti yn dy drugaredd yn gymydog i ni
a dioddef a marw drosom.
Gofynnwn hyn yn dy enw. Amen.

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn eofn:
Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd.....

Emyn 4

Emyn-dôn: Caerdydd

Daeth ffrydiau melys iawn
Yn llawn fel lli
O ffrwyth yr arfaeth fawr
Yn awr i ni;
Hen iachawdwriaeth glir
Aeth dros y crindir cras;
Bendithion amod hedd:
O ryfedd ras!

Cymerodd Iesu pur
ein natur ni,
enillodd ef i'w saint
bob braint a bri;
fe ddaeth o'r nef o'i fodd,
cymerodd agwedd gwas;
ffrwyth y cyfamod hedd:
O ryfedd ras!

**Yn rawnwin ar y groes
Fe droes y drain,
Caed balm o archoll ddofn
Y bicell fain:
Dechreuwn fawl cyn hir
Na flinir ar ei flas
Am Iesu'r aberth hedd:
O ryfedd ras!
*Pedr Fardd (1775 – 1845)***

Arweinydd: I Dduw'r Tad, a'n carodd ni'n gyntaf,
a'n gwneud yn gymeradwy yn yr Anwylyd;
I Dduw'r Mab, a'n carodd ni,
a'n golchi oddi wrth ein pechodau
yn ei Waed ei hun;
I Dduw'r Ysbryd Glân,
sy'n tywallt cariad Duw ar led yn ein
calonnau, y bo'r holl gariad a'r gogoniant dros
holl amser a hyd dragwyddoldeb. **Amen.**

Terfyna'r gwasanaeth mewn distawrwydd.

Cydnabyddiaeth.

Gweddïau Agoriadol a Salm 22: *Gweddi Ddyddiol 2009* (sy'n cynnwys Trefn Gwasanaethau Ychwanegol y rhoddwyd iddynt y teitl Boreol a Hwyrdd Weddi 2009) a awdurdodwyd gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ^(b) Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru a Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2010.

Gweddïau Agoriadol: *Gweddi Ddyddiol 2009* (sy'n cynnwys Trefn Gwasanaethau Ychwanegol y rhoddwyd iddynt y teitl Boreol a Hwyrdd Weddi 2009) a awdurdodwyd gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ^(b) Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru a Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2010.

Emynau o Caneuon Ffydd 2001 Hawlfraint ^(b) Pwyllgor y Llyfr Emynau Cydenwadol

Ymbiliau - *Cytûn – Tymhorau Gogoniant 1997*

Emynau o Emynau'r Eglwys 1956 ac Emynau'r Llan 1997

**Rhif y Drwydded i Ailgynhyrchu Geiriau'r Emynau
(CCL) 555614**